Rhif: WG30807

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Pobl sy'n Wynebu Risg

Canllawiau ynghylch ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg - Ymgynghoriad

Awst 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-78859-278-5

| <u>**Cynnwys**</u> | **Tudalen** |
|---|---|

<u>**Adran 1**</u>

**Cyflwyniad** 2

**Digwyddiadau Cyn Ymgynghori** 3

**Cefndir** 4

<u>**Adran 2**</u>

**Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad** 5

**Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** 5

**Atodiad A – Rhestr o'r Ymatebwyr** 14

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O'r dechrau un, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i weithio gyda phobl i helpu i lunio'r is-ddeddfwriaeth a'r broses o'i rhoi ar waith, a chyflawni'r newid mewn arfer a diwylliant a hybir drwy'r Ddeddf. Roedd yr ymrwymiad hwn yn tanategu proses ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y cynigion ar gyfer Cyfrolau 5 a 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw rhwng 31 Ionawr a 25 Ebrill 2017.

Datblygwyd y dogfennau gyda gweithgor o ymarferwyr a chynhaliwyd 2 weithdy mawr, yng Ngogledd Cymru a De Cymru, i oleuo'r cynnyrch terfynol.

Yn ogystal ag ymgynghori ffurfiol, rhoddodd swyddogion gyflwyniadau i grwpiau, roeddent yn bresennol mewn cyfarfodydd un i un, ac fe anogon nhw pobl i'w gwahodd i'w cyfarfodydd presennol. Gofynnwyd i randdeiliaid rannu gwybodaeth gyda'u rhwydweithiau ac adrodd yn ôl wrth Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ehangach trwy dudalennau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru, dosbarthwyd yr ymgynghoriad i grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys:

- Cadeiryddion Byrddau Diogelu yng Nghymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Sefydliadau'r Trydydd Sector
- Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Byrddau Iechyd
- Prif Gwnstabliaid yng Nghymru

## Digwyddiadau Cyn Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad cyn y broses ymgynghori. Diben y rhain oedd:

- hybu ymgysylltiad â'r ymgynghoriad;
- darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid allweddol am y meysydd y byddem yn ymgynghori yn eu cylch.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol gyfranogi mewn trafodaethau ynghylch llunio'r canllawiau, a hefyd rhannu gwybodaeth o'r digwyddiadau gyda'u rhwydweithiau ehangach i ddarparu ymgysylltiad dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 30 Tachwedd 2016 yn Llandudno. Cynhaliwyd yr ail ar 8 Rhagfyr 2016 yng Nghaerdydd. Roedd tua 30 yn bresennol yn y digwyddiad yng Ngogledd Cymru a 40 yn bresennol yn y digwyddiad yn Ne Cymru:

- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- AGGCC
- Byrddau Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Byrddau Diogelu Oedolion
- Byrddau Diogelu Plant
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cafodd Llywodraeth Cymru 55 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd rhai ymatebion ar ffurf naratif yn unig ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o ymatebion i'r blychau ticio. Mae'r holl ymatebion wedi cael ystyriaeth gyfartal o ran y sylwadau a gafwyd. Mae rhestr o'r ymatebwyr wedi'i hatodi yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

## Cefndir

Mae cyfrolau 5 a 6 yn nodi disgwyliadau eglur o ran y ffyrdd y dylai asiantaethau ac ymarferwyr gydweithio i ddiogelu'r holl bobl yng Nghymru. Yn arbennig, mae'r canllawiau'n nodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion unigol wedi i awdurdod lleol gael ei hysbysu bod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg.

Cyfarfu grŵp tasg a gorffen bach yn 2016 i roi cymorth i ddatblygu'r canllawiau. Cafodd y canllawiau eu profi mewn 2 weithdy ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016, gyda chynrychiolwyr a adnabuwyd gan Fyrddau Diogelu, i ystyried y drafftiau gweithio o'r canllawiau wedi'u diweddaru.

Bydd rhanddeiliaid yn defnyddio'r canllawiau yn y crynodeb dan Ran 7 i alinio'u prosesau â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cafodd y drafftiau cychwynnol dderbyniad da yn y gweithdai a bydd y fersiynau terfynol yn sail i'r adolygiad o'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol sy'n cael eu datblygu gan fyrddau diogelu.

## Adran 2 – Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

**<u>Dadansoddiad Llywodraeth Cymru</u>**

Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynigion mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed trwy'r Panel Cynghori ar Ddiogelu ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau statudol. O ganlyniad cafodd y dull gefnogaeth eang.

Themâu allweddol o'r ymatebion yw'r angen i gryfhau:

- perthnasedd y canllawiau i ddarparwyr addysg, yn enwedig ar gyfer achosion sy'n ymwneud â phlant;
- y cysylltiadau ag achosion o gam-drin domestig, ar gyfer plant yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig ac oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig ;
- yr angen i bwysleisio ymwneud yr unigolyn a'i deulu â'r prosesau ffurfiol ar gyfer ymdrin â phobl sy'n wynebu risg;
- y dull o ymdrin ag achosion lle ceir arwyddion o gam-drin sefydliadol;
- anghenion y rhai sy'n siarad iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf;
- y derminoleg anghyson a ddefnyddir mewn rhannau penodol o'r canllawiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl themâu uchod a bydd y canllawiau'n cael eu diwygio i adlewyrchu'r meysydd hyn.

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod angen i rôl ysgolion a darparwyr addysg o ran hysbysu ynghylch plant ac oedolion sy'n wynebu risg gael ei chryfhau yn y ddwy ddogfen. Er nad yw darparwyr addysg yn cael eu rhestru fel partneriaid perthnasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, byddwn yn diwygio'r canllawiau i'w gwneud yn fwy eglur pa rôl y mae disgwyl i'r holl ddarparwyr addysg ei chyflawni i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Cafwyd sylwadau tebyg ynghylch rôl y trydydd sector a'r angen i bwysleisio'r elfen amlasiantaethol o gadw pobl yn ddiogel.

Bydd y canllawiau'n cael eu diweddaru hefyd i gynnwys cysylltiadau â deddfwriaeth ar gam-drin domestig a sut y dylai'r prosesau gydadweithio a pheidio â chael eu hystyried ar wahân i'w gilydd.

Mae hefyd yn amlwg o adborth yn ystod yr ymgynghoriad a gohebiaeth gan unigolion gyda Llywodraeth Cymru nad oes digon o bwyslais ar bwysigrwydd ymgysylltu â'r unigolyn a'i deulu yn ystod y broses o amddiffyn unigolyn sy'n wynebu risg, a'u hysbysu'n gyson yn ystod pob cam o'r broses.

Byddwn hefyd yn diwygio'r canllawiau i'w gwneud yn glir bod angen ymdrin yn effeithiol ag achosion o gam-drin cyfundrefnol neu luosog i adnabod patrymau o gam-drin mewn lleoliadau penodol.

Bydd y canllawiau hefyd yn cyfeirio at ddiwallu anghenion y rhai y mae eu dewis iaith yn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg ac yn fwy cyson o ran terminoleg.

Hefyd, cyfeiriodd NSPCC Cymru at y ffaith nad oedd yr enghreifftiau o esgeuluso a oedd yn cael eu rhoi ym mharagraff 40 o'r Canllawiau Plant yn cyd-fynd â'r diffiniad o

esgeuluso a roddir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac nad oeddent yn cyfleu cysyniad allweddol methiant i ddiwallu anghenion. Bydd y drafft cyfredol yn cael ei ehangu i gynnwys methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at niweidio iechyd neu ddatblygiad.

Roedd rhai ymatebion yn nodi meysydd penodol i'w hystyried ymhellach ac mae'r rhain wedi cael eu hystyried hefyd ond nid yw'r canllawiau wedi cael eu haddasu o ganlyniad. Caiff y meysydd hyn eu nodi isod.

Mae'r rhain yn ystyried yr hyn yr ystyrir ei fod yn gyfle wedi'i golli i sicrhau mwy o aliniad rhwng y broses a'r graddfeydd amser o ran plant ac oedolion y ceir amheuaeth eu bod yn wynebu risg. Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwahaniaeth yn y ddeddfwriaeth sy'n rheoli camau gweithredu gan asiantaethau ac unigolion yn dilyn hysbysiad, mae hefyd yn cydnabod yr adborth o'r gwaith ymgysylltu cyn ymgynghori a'r ymgynghoriad ei hun ynghylch y prosesau ar gyfer plant ac oedolion, yn enwedig yr iaith a ddefnyddir a'r graddfeydd amser ar gyfer ymholi ac ymchwilio. Roedd gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda'r prosesau'n cydnabod bod y gwahaniaethau'n creu rhai anawsterau o ran cyflwyno un broses ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd cefnogaeth i newid y naill broses na'r llall gan eu bod yn gweithio'n dda ac yn addas ar gyfer eu priod feysydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r pwyslais ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn arwain at ymyrryd â hawliau'r gofalwr, neu y gallai'r gofyniad i siarad gyda phlentyn ar ei ben ei hun achosi risg iddynt oni bai fod gofyniad i dystion fod yn bresennol. Mae'r dull o weithio er budd pennaf y plentyn yn thema sy'n rhedeg yn gyson drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a deddfwriaeth a chanllawiau cyfatebol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio dull gwahanol yn y canllawiau hyn.

Roedd nifer o ymatebion yn awgrymu y gallai fod dryswch posibl gyda graddfeydd amser gwahanol ar gyfer cwblhau'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi hysbysu Byrddau Diogelu y bydd y canllawiau a gyhoeddir dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda'i gilydd, yn gyfres o ddogfennau a fydd yn disodli 'Gweithio gyda'n Gilydd' 2004 a 'Mewn Dwylo Diogel'. Felly cydnabyddir y bydd camgymhariad am gyfnod byr yn ystod 2017-18 ond dim ond y canllawiau statudol sy'n nodi cyfrifoldebau statudol.

Yn ogystal â'r themâu a nodir uchod roedd sylwadau manwl iawn a diwygiadau'n cael eu hawgrymu ar gyfer y ddwy ddogfen ymgynghori, y byddant i gyd yn cael eu hystyried fel y gellir gwella'r dogfennau terfynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad; maent wedi darparu tystiolaeth i oleuo'r broses o fireinio'r canllawiau statudol drafft er mwyn egluro nifer o bwyntiau a byddant hefyd yn goleuo'r broses o ddatblygu'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Wrth ystyried yr ymatebion i gwestiynau unigol a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Rhan 2, ceir dadansoddiadau ansoddol a meintiol dan bob cwestiwn. Lle'r oedd cyfle ar gyfer ystod eang o atebion mae manylion y rhain wedi cael eu cynnwys. Lle'r oedd

cwestiynau naill ai wedi'u targedu'n fwy neu'n gofyn am naratif, nid oes gwybodaeth feintiol.

Yn ogystal ag adnabod y themâu allweddol o'r ymgynghoriad, mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi pa gam gweithredu sydd wedi cael neu a fydd yn cael ei gymryd i fynd i'r afael â'r pwyntiau penodol. Lle mae rheoliadau a chanllawiau wedi cael eu diwygio a lle mae camau gweithredu wedi cael neu'n mynd i gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd, caiff hyn ei nodi.

## Cwestiwn 1:

| | **1. A yw'r canllawiau'n glir ac yn hawdd i'w dilyn?** | | |
|---|---|---|---|
| | Ydynt | Nac ydynt | Ansicr |
| **Cyfanswm** | 32 | 8 | 6 |

**Crynodeb**

Roedd y mwyafrif yn cytuno bod y canllawiau'n glir ac yn hawdd i'w dilyn. Mae elfennau allweddol cydweithio effeithiol, dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gweithio mewn modd cydgynhyrchiol yn cael eu disgrifio'n dda.

Awgrymodd Estyn y dylai rôl darparwyr addysg o ran hysbysu ynghylch plant ac oedolion sy'n wynebu risg gael ei phwysleisio'n gryfach.

Dywedodd rhai fod y defnydd o 'hysbysiad' ac 'atgyfeiriad' yn peri dryswch.

Nododd nifer o ymatebwyr ei bod yn anodd awgrymu diwygiadau addas tra bo'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol wrthi'n cael eu llunio, ac felly roedd yn anodd dychmygu'r gydberthynas rhwng y dogfennau. Roedd rhai'n cydnabod y gallai eu cynigion fod yn fwy perthnasol i'r Gweithdrefnau ar gyfer ymarferwyr nag i'r canllawiau.

Roedd ymatebion hefyd yn gofyn am fwy o eglurder yn y diffiniadau o rolau a chyfrifoldebau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er nad yw'r Ddeddf yn rhestru darparwyr addysg annibynnol fel partneriaid perthnasol yn eu rhinwedd eu hunain, rydym wedi bod yn glir o'r dechrau bod diogelu yn fusnes i bawb a bod disgwyl i'r rhai y mae eu gweithgareddau'n dod â hwy i gysylltiad â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg weithredu'n gyflym ac yn briodol pan gyfyd pryderon ynghylch diogelu.

Roedd paragraff 7 yn yr adran ar y ddyletswydd i hysbysu ynghylch plant sy'n wynebu risg yn y canllawiau drafft yn cyfeirio at Adran 163(2) o'r Ddeddf sy'n datgan bod yn rhaid hefyd i awdurdod lleol wneud trefniadau i hybu

| |
|---|
| cydweithrediad rhwng swyddogion perthnasol yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau ei hun, a fydd yn cynnwys addysg.<br><br>Mae rôl addysg mor hanfodol fel y bydd y pwyslais yn cael ei gryfhau yn y fersiwn derfynol o'r canllawiau Ymdrin ag Achosion Unigol.<br><br>Gan gyfeirio at y dryswch ynghylch defnyddio 'hysbysiad' ac 'atgyfeiriad'; mae hysbysiad yn golygu hysbysiad dan y ddyletswydd yn y Ddeddf i hysbysu ac mae atgyfeiriad yn cyfeirio at broses fewnol mewn asiantaethau a restrir fel partneriaid statudol. Defnyddir y term hysbysiad i alinio'r broses â'r term a ddefnyddir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r canllawiau mewn perthynas â phlant yn datgan, at ddibenion y canllawiau, y bydd hysbysiad wrth y gwasanaethau cymdeithasol yn golygu atgyfeiriad hefyd. Rydym wedi ailadrodd y datganiad hwnnw yn y canllawiau mewn perthynas ag oedolion.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn fwy priodol bod rolau a chyfrifoldebau penodol unigolion ac asiantaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael sylw yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. |

## Cwestiwn 2:

| | **2. A oes unrhyw ran o'r canllawiau a fyddai'n fwy priodol i'r fersiwn ddiwygiedig o Weithdrefnau Amddiffyn Cymru Gyfan? Os felly, nodwch isod.** | | |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac oes | Ansicr |
| **Cyfanswm** | 12 | 23 | 6 |

**Crynodeb**

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y canllawiau'n darparu sylfaen gadarn i'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol ddarparu mwy o fanylder ac arfer gorau. Roedd ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod cynlluniau Gofal a Chymorth yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau diogelu. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod cyfle ar gyfer mwy o eglurder a chysondeb rhwng y canllawiau mewn perthynas ag oedolion a'r canllawiau mewn perthynas â phlant. Fodd bynnag, croesawyd hefyd (Cyngor Dinas Caerdydd) eglurder a chrynoder y canllawiau mewn perthynas ag oedolion a phlant, a ddylai gael eu hatgyfnerthu gan y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Roedd ymatebwyr eraill yn teimlo bod y canllawiau'n cyfuno canllawiaustrategol a gweithdrefnol ac y byddai'n well gadael yr elfen weithdrefnol i'r Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

Awgrymodd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych fod y cyfeiriad at ystyried trafodaeth dros y ffôn fel dull priodol o gynnull cyfarfod strategaeth yn awgrym defnyddiol o ystyried yr anawsterau presennol a'r oedi a achosir am nad yw wastad yn bosibl dod â'r holl bobl briodol ynghyd ar gyfer cyfarfod wyneb-yn-wyneb mewn modd amserol. Byddai'r dull hwn yn ffordd ddefnyddiol o symleiddio'r broses.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai'r canllawiau hyn ddarparu sail gadarn ar gyfer y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol a ddylai ategu, yn hytrach na dyblygu, y canllawiau; ac eithrio lle mae angen rhoi pwyslais penodol ar ofynion deddfwriaethol, strategol, a gwahaniaethau deddfwriaethol o ran y modd y caiff oedolion a phlant sy'n wynebu risg eu trin. Gwneir cyfeiriadau at y posibilrwydd o gynnal cyfarfod strategaeth ar sail rithwir yn y canllawiau mewn perthynas â phlant a'r canllawiau mewn perthynas ag oedolion.

## Cwestiwn 3:

| | 3. A yw'r siartiau llif yn rhoi adlewyrchiad digonol o'r broses ar gyfer rheoli achosion unigol? Os nad ydynt, nodwch ba siart lif a sut y gellid ei gwella. | |
|---|---|---|
| | Ydynt | Nac ydynt |
| **Cyfanswm** | 19 | 18 |

**Crynodeb**

Roedd y niferoedd yn gymharol gyfartal rhwng y rhai a oedd yn cytuno ac yn anghytuno bod y siartiau llif yn gywir ac yn ddefnyddiol. Roeddent i gyd bron iawn yn teimlo y dylid eu cynnwys fel cymorth i fapio'r broses. Roedd rhai'n teimlo'u bod yn gorfodi'r weithdrefn a'r camau gan ei gwneud yn hawdd i'w deall. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn meddwl y gallent fod yn ddryslyd ac nad ydynt yn adlewyrchu'r broses a nodir yn y testun. Roedd Estyn yn teimli bod siartiau llif sy'n nodi'r prosesau ar gyfer hysbysu a rheoli atgyfeiriadau'n eglur, yn gryno, ac yn adlewyrchu'r broses yn dda a'u bod yn hawdd i'w dilyn. Roedd Prifysgol De Cymru yn teimlo bod arweiniad eglur ynghylch y strwythur yn hanfodol i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n dilyn y protocolau cywir ar gyfer ymarfer, yn enwedig ar gyfer staff sydd newydd gymhwyso. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn teimlo y dylai'r siart lif yn y ddogfen mewn perthynas ag oedolion adlewyrchu'r siart lif yn y ddogfen mewn perthynas â phlant.

Roedd galwad hefyd am gynnwys Coeden Benderfynu'r GIG, sy'n cael ei threialu gan Rwydwaith Diogelu GIG Cymru, yn y canllawiau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r siartiau llif wedi'u bwriadu i roi cyfeiriad cyflym ac arweiniad cyffredinol ynghylch y gofynion deddfwriaethol. Nid ydynt wedi'u bwriadu i ddisodli gallu gweithwyr proffesiynol i ffurfio barn ynglŷn â sut i weithredu dan amgylchiadau penodol, nac atgynhyrchu prosesau y dylid eu nodi mewn mwy o fanylder yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae'r sylwadau'n ddefnyddiol a bydd y siartiau'n cael eu diweddaru i adlewyrchu'r adborth.

Mae'r diweddariadau allweddol i'r siartiau llif yn cynnwys:

- Diweddariad i’r siart lif oedolion i adlewyrchu’r fformat a’r broses a ddilynir yn y siart lif plant;
- Sicrhau aliniad cryfach â’r testun yn y canllawiau;
- Diweddaru’r derminoleg a’r graddfeydd amser;
- Ystyried pryd y dylid ceisio cydsyniad, a chan bwy.

Bydd y siartiau llif yn cael eu diweddaru a’u profi gyda thimau diogelu plant ac oedolion cyn bod y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi.

Mae Coeden Benderfynu’r GIG yn cael ei datblygu ar wahân i’r canllawiau hyn, ac nid yw’r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni’n cyd-fynd â’n hymrwymiad ni i gyhoeddi’r canllawiau hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o’r farn ei bod yn well cynnwys y Goeden Benderfynu yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

## Cwestiwn 4: Dim blychau ticio

| | |
|---|---|
| | **4. Fe hoffem wybod beth yw eich barn am yr effeithiau y byddai’r canllawiau’n eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol<br>i) y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg; and<br>ii) ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.<br>Pa effeithiau allent eu cael yn eich tyb chi? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?** |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai cyhoeddi’r ddwy set o ganllawiau’n cael effaith gadarnhaol ar allu pobl i gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith. Dywedodd Estyn fod ‘y dylai’r ymrwymiad i gydweithio a dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy’n ganolog i’r cynigion, sicrhau bod cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a chael gwasanaeth eirioli yn eu dewis iaith, yn cael eu gwarchod’. Fodd bynnag, pwysleisiodd Awdurdod Addysg Ynys Môn y byddai argaeledd ymarferwyr dwyieithog a’r modd y cânt eu lleoli yn cyfyngu yn y pen draw ar y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn ymarferol.

Cododd rhai ymatebwyr y mater ynghylch yr angen i gyfarch rhai cleientiaid mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg. Cyfeiriodd Gofal Cymdeithasol Cymru at achos Victoria Climbie fel enghraifft i amlygu’r pwynt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Dan amodau Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol Llywodraeth Cymru cynhaliwyd asesiad o effeithiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystod proses y Bil. Ar y pryd canfu’r asesiad bod effeithiau negyddol ar y Gymraeg yn annhebygol a bod y Ddeddf wedi’i bwriadu i greu system decach a mwy cyfartal ar gyfer pobl sy’n gymwys i gael gofal a chymorth. Mae Mesur y

| |
|---|
| Gymraeg (Cymru) 2011 yn dwyn llawer o gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ymlaen a'r ddeddfwriaeth hon sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol trosfwaol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: mae'n rhaid i'r holl bobl sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymdeithasol a rhoi gofal cymdeithasol roi sylw i hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Mwy Na Geiriau' yn 2012 i gryfhau gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Egwyddor allweddol yw'r Cynnig Gweithredol, sef darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.<br><br>O ran yr angen i ddarparu gwasanaethau sy'n hygyrch i bobl y mae eu dewis iaith yn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, rhoddir sylw i hyn yn yr ymateb i Gwestiwn 5 isod. |

## Cwestiwn 5:

| | **5. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon ynghylch y canllawiau hyn yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nodweddion gwarchodedig yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham?** | |
|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw |
| **Cyfanswm** | 21 | 10 |

| |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.<br><br>Er nad yw'r naill ddogfen na'r llall yn cyfeirio'n uniongyrchol at nodweddion gwarchodedig, awgrymodd Cyngor Caerdydd fod yr egwyddor gyffredinol yn y ddwy ddogfen yn ymwneud â diogelu'r holl unigolion sy'n bodloni'r meini prawf o ran wynebu risg o gam-drin neu fod yn cael eu cam-drin. Yn y ddogfen ar Gyfrol 6, gellid cryfhau'r adran ar benderfyniadau a gefnogir a phenderfyniadau deallus i gynnwys cyfeiriad at unrhyw nodweddion diwylliannol neu warchodedig a allai roi dealltwriaeth anghywir i weithwyr proffesiynol am benderfyniadau deallus, ac a allai roi arweiniad i weithwyr proffesiynol o ran ystyried opsiynau diogelu eraill.<br><br>Cafodd y cwestiwn ynglŷn â diwallu'r angen i ddarparu gwasanaethau mewn dewis ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ei godi yng nghyd-destun methu â chydnabod anghenion cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |

(UNSAIN Cymru) neu'r rhai ag anawsterau cyfathrebu penodol (Bwrdd Diogelu Cwm Taf).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Caiff Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn, sy'n cynnwys iaith. Bydd Llywodraeth Cymru yn atgyfnerthu'r angen hwnnw yn y fersiynau terfynol o'r canllawiau.

Mae'r holl ddarpariaethau yn y canllawiau mewn perthynas â phlant wedi'u bwriadu i wella deilliannau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau perthnasol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd cyfeiriad cyffredinol at yr angen i ystyried nodweddion gwarchodedig yn cael ei fewnosod yn y canllawiau ond bydd ystyriaeth fwy manwl yn cael ei chynnwys yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol.

## Cwestiwn 6:

| | 6. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham? | |
|---|---|---|
| | Ydw | Nad ydw |
| **Cyfanswm** | 11 | 25 |

**Crynodeb**

Roedd mwyafrif clir o ymatebwyr yn cytuno na fyddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

Awgrymodd Cymdeithas Clefyd Alzheimer y dylid cyfeirio'n benodol at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn (Age Cymru).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Caiff Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol oll eu tanategu gan yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd drosfwaol yn 6(2)(c) bod yn rhaid i unrhyw unigolyn sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn, sy'n cynnwys iaith.

Mae'r Ddeddf a'r canllawiau yn cydnabod yn glir yr angen i gynnwys cynrychiolaeth o blith y rhai sy'n arfer swyddogaethau neu sy'n cyflawni gweithgareddau mewn perthynas â phlant ac oedolion yn ardal y Bwrdd. Byddwn yn mireinio'r canllawiau i gynnwys cyfeiriadau mwy penodol at

| |
|---|
| sefydliadau a chyrff yng Nghymru sy’n cyflawni swyddogaethau o’r fath. |

## .Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol I | Cyfrinachol N | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | | ✔ | Margaret Flynn | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| 2. | ✔ | | | |
| 3. | | ✔ | Jane Marr | Awdurdod Addysg Ynys Môn |
| 4. | ✔ | | | |
| 5. | | ✔ | Prif Arolygydd | Estyn |
| 6. | | ✔ | Chris Walker/Ian Turner | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 7. | | ✔ | Carys Phillips | |
| 8. | | ✔ | Pauline Gallucio | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| 9. | | ✔ | Nikki Harvey | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| 10. | ✔ | | | |
| 11. | | ✔ | Sean O'Neill | Plant yng Nghymru |
| 12. | | ✔ | Nicola Edwards | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 13. | | ✔ | Alaw Pierce | Awdurdod Lleol Sir Ddinbych |
| 14. | | ✔ | Christie Owen | Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru |
| 15. | ✔ | | | |
| 16. | ✔ | | | |
| 17. | | ✔ | Gerry Evans | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| 18. | | ✔ | Yr Athro Ruth Northway/Dr Michelle Culwick | Y Gyfadran Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru |
| 19. | | ✔ | Sarah Rochira | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 20. | | ✔ | Lin Slater | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 21. | | ✔ | Cecile Gwilym | NSPCC Cymru/Wales |
| 22. | | ✔ | Emma Curtis | Dinas a Sir Abertawe; Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 23. | | ✔ | Nicola Kingham | Bwrdd Diogelu Cwm Taf |
| 24. | | ✔ | Karen Jackson | NPT Homes |
| 25. | | ✔ | Sonia Wearne | Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs |
| 26. | | ✔ | Jacqueline Davies | Cyngor Sir Powys |
| 27. | | ✔ | Christopher Williams | Age Cymru |
| 28. | | ✔ | Linda Davies | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 29. | | ✔ | Helen Thomas | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| 30. | ✔ | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **31.** | | ✔ | Dr Ed Bridges | Cymdeithas Clefyd Alzheimer yng Nghymru |
| **32.** | | ✔ | Peter Orford | Gofal Cymdeithasol a Thai, Torfaen |
| **33.** | | ✔ | Pauline Bird | Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru |
| **34.** | | ✔ | Yr Athro Sally Holland | Comisiynydd Plant Cymru |
| **35.** | | ✔ | Jason Tucker/Dr Lucy Series | Y Ganolfan Cyfraith Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd |
| **36.** | | ✔ | Terri Warrilow | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| **37.** | | ✔ | Chris Kang-Mullen | Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar (Cymru) |
| **38.** | | ✔ | Wendy Sunderland-Evans | Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM (Oedolion) |
| **39.** | | ✔ | Wendy Sunderland Evan | Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM (Plant) |
| **40.** | | ✔ | Suzanne Griffiths | Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru |
| **41.** | | ✔ | Sally Jenkins | Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan |
| **42.** | | ✔ | Eleri Griffiths | Mudiad Meithrin |
| **43.** | ✔ | | | |
| **44.** | ✔ | | | |
| **45.** | | ✔ | Cheryl Perry | Darpar Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol, Prifysgol De Cymru |
| **46.** | ✔ | | | |
| **47.** | ✔ | | | |
| **48.** | | ✔ | Linda Hughes-Jones | BIP Caerdydd a’r Fro |
| **49.** | | ✔ | Andrew Rutherford | UNSAIN Cymru |
| **50.** | | ✔ | Denise Inger | SNAP Cymru |
| **51.** | | ✔ | Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **52.** | | ✔ | Joel Martin | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| **53.** | ✔ | | | |
| **54.** | ✔ | | Simon Boddis | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM |
| **55.** | ✔ | | Alys Jones | Cyngor Caerdydd |